# Ar Dân!

Rhifyn 23 - Hydref 2012

C.FF.I. CEREDIGION Y.F.C.

## Yn y Rhifyn hwn...

Pwy 'di Pwy ar Ôl yr AGM



Ffermio, Beicio a Theithio





Ennill y Sioe a'r Aradr



... a mwy!

www.yfc-ceredigion.org.uk

# Dathliad Ffermio a Bywyd Cefn Gwlad...

# Addysgu...

Ar y 14eg a 15fed o fis Medi, cynhaliodd Pwyllgor Materion Gwledig CFFI Ceredigion mewn cydweithrediad â Chynnal y Cardi a Llanerchaeron benwythnos i ddathlu ffermio a bywyd cefn gwlad. Bu'n benwythnos arbennig a llawn bwrlwm. Ar Ddydd Gwener estynwyd gwahoddiad i blant cyfnod allweddol dau ysgolion Bro Aeron, mynychodd 250 ohonynt i ddysgu am gwahanol agweddau o ffermio a bywyd yng nghefn gwlad. Trefnwyd a chynhaliwyd y diwrnod gan aelodau'r mudiad. Dysgwyd sut i odro, cneifio defaid a thrin gwlân, am gig, cnydau, garddio, coginio, ailgylchu ac iechyd a diogelwch, yn ogystal â chael cyfle i weld tractor a beic modur. Diolch i Gwili Jones a Dalton's ATV's am adael i ni gael benthyg eu peiriannau. Gwnaeth y plant a'r athrawon ddysgu llawer mewn dull anffurfiol a chafodd yr aelodau gyfle i rannu eu neges a bod yn athrawon am y dydd! Roedd cwis i'w gael i lenwi wrth fynd o amgylch y stondinau a'r enillydd oedd Josh o Ysgol Gynradd Aberaeron.





Ar Ddydd Sadwrn daeth tyrfa enfawr o dros 800 drwy gatiau Llanerchaeron am ddiwrnod rhad ac am ddim i flasu gwledd o grefftau a chynnyrch lleol, stondinau addysgiadol a nifer o arddangosfeydd megis Coginio gyda Gareth, gwehyddu, ffensio a threialon Cŵn Defaid! Roedd hefyd cyfle i aelodau'r CFFI nodi pa hyfforddiant byddai o ddiddordeb iddynt i ddatblygu eu sgiliau amaeth megis Plygu Clawdd, Cneifio, Sialens ATV, Bwtchera ayyb.



Roedd hi'n ddiwrnod hynod o lwyddiannus ac yn dangos gwaith da aelodau C.F.I Ceredigion ynghyd â'u sgiliau ar ei gorau. Diolch i raglen Ffermio am ddarlledu pwt o'r diwrnod. Hoffai'r mudiad ddiolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gefnogi'r digwyddiad!

## Cadeirydd y Sir: Emyr Lloyd



**CLWB:** TREGARON
**Swydd:** LLYFRGELLYDD
**Hoff atgof yn y C.Ff.I.:**
Mynd i McDonalds yn Aberystwyth ar ôl bod yn y sinema a dechrau cael 'food fight' gyda'r staff. Ca'th un aelod o'r staff 'sack on the spot'.


**Clod mwyaf yn ystod dy gyfnod fel aelod (heblaw am y swydd hon):**
Dwi ddim yn hoff iawn ofostian fi fy hunan ond fe dd'wedaf i chi'r gystadleuaeth ges mwyaf o sioc o'i hennill oedd cystadleuaeth goginio gyda Nerys Bysus. Ac yna mynd 'mlan i'r Sioe Frenhinol a meddwl ein bod ni'n gw'bod y cwbl ond a'th hi'n bach o 'disaster' a ni ddaeth yn olaf!

**Beth yr hoffet ei gyflawni fel rhan o dy swydd eleni?**
Gwneud yn siwr bod llais yr aelodau yn cael ei glywed a bod pawb yn joio!!!



fe

## Cynllun Marchnata Wyn CFFI Cymru/Dunbia






A ydych chi'n cyflenwi ŵyn i Dunbia yn Llanybydder?

A ydych chi yn aelod/aelod cyswllt dan 40 oed neu iau?

A ydych chi eisiau bod yn rhan o gynllun sy'n marchnata ŵyn drwy'r flwyddyn?

Mae 30c o bob oen yn mynd i CFFI Cymru
Mae 10c o bob oen yn dod yn ôl i C.Ff.I Ceredigion!
Daeth dros £1200 i C.Ff.I Ceredigion drwy'r cynllun yma yn 2011-12!

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch a'r Swyddfa yn Felinfach, Alison Jones yn Dunbia neu mae ffurflenni ymuno gyda swyddogion y clybiau.

PAM YMUNO?

£1 o fonws am bob oen sy'n cyraedd y grid dosbarthiadd.

Mae angen 400 o ŵyn yr wythnos. Mae prinder ŵyn yn debygol yn enwedig dros fisoedd y Gaeaf.

Mae rhai o gyflenwyr mwyaf y cynllun yng Ngheredigion yn gorffen eleni oherwydd oedran!!!






Sgubor Harddwch
The Beauty Barn
Day Spa

Relax • Unwind • Indulge

01239 851990

Pengallt, Coed y Bryn, Llandysul,
Ceredigion. SA44 5LZ



Tafarn Ffostrasol Arms

Ffostrasol Arms, Llandysul, Ceredigion. SA44 4SY



✆ 01239 851348

# Llywydd y Sir: Dan Davies, Fronfedw

**Cyn-glwb:**
Llanwenog, cyn-arweinydd Llanwenog ac arweinydd presenol C.Ff.I. Dihewyd



**Hoff atgof yn y C.Ff.I.:**
Mynd gyda Bryn James trefnydd y Sir ar y pryd i'r Sioe Laeth yn Llundain i farnu gwartheg godro yn 16 oed. Roedd y daith yn agoriad llygad a Llundain mor fawr i grwt o Gwmsychpant!

**Yr anrh ydedd mwyaf a ddaeth i'ch rhan yn y C.Ff.I.?**
Mae'n anodd iawn dewis ond roeddwn yn falch iawn o gael bod yn gadeirydd ar glwb Llanwenog ac roedd cynrychioli'r Sir ar lefel Cymru bob amser yn fraint, ond yr anrhydedd mwyaf oedd cynrychioli C.Ff.I. Cymru yn y Rali Ewropeaidd yn Trento, Yr Eidal yn 1977. Mae'r atgofion o'r profiad dal yn fyw yn y côf. Nifer o sgiliau sy'n angenrheidiol mewn bywyd, e.e. cydweithio a manteisio ar gyfleoedd. Gwneud pethau na fyddech yn ei breuddwydio eu wneud, ond yn bersonol y ddawn a'r gallu i fedru sefyll o flaen cynulleidfa boed i ddatgan barn neu i arwain cyngerdd.

**Beth yw'r peth pwysicaf a ddysgoch drwy'r C.Ff.I.?**
Nifer o sgiliau sy'n angenrheidiol mewn bywyd, e.e. cydweithio a manteisio ar gyfleoedd. Gwneud pethau na fyddech yn ei breuddwydio `i wneud, ond yn bersonol y ddawn a'r gallu i fedru sefyll o flaen cynulleidfa boed i ddatgan barn neu i arwain cyngerdd.

**Pwy yw'r dylanwad mwyaf arnoch mewn bywyd?**
Mae'n anodd dewis gan fod gwahanol bobl wedi dylanwadu arnaf ar wahanol gyfnodau yn fy mywyd. Hwyrach bod hi'n haws dylanwadu ar berson pan ym more oes, a'r person a ddylanwadodd fwyaf arnaf yn y cyfnod hwnnw oedd fy mhrifathro yn yr ysgol gynradd sef Mr Lewis (neu Lewis Cwrt). Roedd yn athro cadarn a ddysgodd ddisgyblaeth, parch a rhinweddau gweithio'n galed imi.

# Cyflawni...

## Taith Feicio Beefy

Gosododd cyn-gadeirydd C.Ff.I. Cymru, Dylan 'Beefy' Jones sialens i'w hun yn ystod mis Medi, sef beicio o amgylch Cymru yn y gobaith o godi arian tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Cychwynodd y daith yn swyddfa C.Ff.I. Cymru ar faes y sioe yn Llanelwedd gyda'r bwriad o ymweld â phob ffederasiwn yng Nghymru yn ogystal â chanolfannau yr Ambiwlans Awyr ar draws y wlad, gan orffen y daith yn CCB y mudiad yng Nghaerdydd. Yn ei gynorthwyo roedd Aled Jones Aelod Hŷn C.Ff.I. Cymru a NFYFC.



Cyrhaeddodd yng ngogledd y Sir yn ystod penwythnos 15fed o Fedi gan adael y Sir ar y penwythnos canlynol. Cynhaliwyd noson o rasus moch ar nos Wener yr 21ain yng ngwesty'r Grannell, Llanwnnen yng nghwmni aelodau'r Sir a C.Ff.I. Cwmann. Cafwyd noson hwylus a chyflwynywd siec o £3485.36 i Dylan ar ran y Sir. Bu swyddogion ac aelodau'r Sir yn beicio gyda Dylan yn ystod y ddau benwythnos ac yn wir roedd sawl pen-ôl tost i'w gael erbyn diwedd y cyfnod!

AMBIWLANS AWYR CYMRU
WALES AIR AMBULANCE
Arbed amser - Arbed bywydau
Saving time - Saving lives


NFU CYMRU

FINANCIAL HELP AVAILABLE FOR STUDENTS

Did you know that Ceredigion NFU Trustees Fund have sponsored over 100 students from Ceredigion?

If you are studying agriculture or any agri-related subject then you could be eligible for sponsorship. Contact us now to find out more details of this generous offer.

CYMORTH ARIANNOL AR GAEL I FYFYRWYR

Oeddech chi'n gwybod bod Cronfa Ymddiriedolwyr NFU Ceredigion wedi noddi dros 100 o fyfyrwyr o Geredigion?

Os ydych yn astudio amaethyddiaeth neu unrhyw bwnc sy'n gysylltiedig ag amaeth yna gallwch fod yn gymwys i gael nawdd. Cysylltwch â ni nawr i gael rhagor o fanylion am y cynnig hael hwn.

Tel: 01570 423348

NFU CYMRU

# Ffermio...

## Is-gadeirydd y Sir: Einir Ryder



Clwb: C.Ff.I. Pontsian
Swydd: Athrawes Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Aberbanc


**Pwy sydd wedi dylanwadu fwyaf arnat drwy fudiad y C.Ff.I.?**
Mae llawer gormod o bobl i'w henwi i gyd. Mae cymaint wedi cael dylanwad arnaf ond yn sicr nifer helaeth o gyn aelodau clwb Pontsian dangosont i mi y gwerth o gyd-weithio fel rhan o dîm.

**Beth oedd y gystadleuaeth gyntaf iti gymryd rhan ynddi?**
Eisteddfod y Sir yn y gystadleuaeth Llefaru dan 13 oed. Adrodd yr Hwrdd Du - T. Llew Jones.

**Pa beth o fewn y C.Ff.I. sydd wedi bod o fudd iti yn dy fywyd proffesiynol?**
Fel athrawes mae'n angenrheidiol perfformio o flaen y plant bob dydd a thrwy'r dydd. Mae'r cyfleodd perfformio 'dw i wedi eu cael drwy'r mudiad bob amser yn ddefnyddiol. Ond lwcus i'r plant 'dyw Doris nac arweinydd y 'Land Girls' heb gyrraedd yr ysgol eto!

**Beth yr hoffet ei gyflawni yn dy rôl fel Is-Gadeirydd y Sir?**
Ar wahân i gadw trefn ar Emyr Lloyd, cael cyfleoedd i ymweld â chlybiau ar draws y sir i ddod i adnabod aelodau yn well. Byddai'n braf atgyfnerthu'r berthynas rhwng y gwahanol glybiau.

## Dadansoddi Diwrnod Maes...




Derbyniodd swyddfa'r sir enwau 157 o aelodau i gystadlu yn niwrnod maes 2012 ym mart Llanybydder (29ain o Fedi) ac IBERS (14eg o Hydref). O'r rhain, roedd 41% yn ferched (bois= glas, merched = pinc). O'r aelodau yn y categori hŷn (dan 26), dim ond 58% sy'n gweithio ym myd amaeth (yn ôl eu ffurflenni aelodaeth).

Llongyfarchiadau i'r canlynol am ddod yn fuddugol, a phob lwc i bawb fydd yn cystadlu yn niwrnod maes C.Ff.I. Cymru ar yr 20fed o Ebrill yn Rhuthin:
Stocmon dan 14: Rhys Davies (Llanwenog); dan 18: Dafydd James (Bryngwyn); dan 26: Delyth Jones (Tregaron) Tîm barnu stoc dan 14: Penparc; dan 18: Llanwenog; dan 26: Pontsian, ATV: Pontsian, Ffensio: Talybont, Arddangosfa clwb: Llangeitho, Tractor a Loader: Geraint Jenkins (Talybont), Effeithlonrwydd a Diogelwch: Troedyraur

Marc terfynol: Cydradd 1af i glybiau Llanwenog, Pontsian a Talybont.








Llongyfarchiadau gwresog i C.Ff.I Llanddeiniol ar ennill y gystadleuaeth Ffensio ac i Llion Davies, C.Ff.I Troedyraur a Dyfan Ellis-Jones C.Ff.I Llangwyryfon ar ddod yn 2il yn y Sialens ATV, y ddau ar lefel Cenedlaethol yn ddiweddar. Da iawn chi fechgyn yn rhoi Cymru a

## Cadeirydd Materion Gwledig: Emyr Evans

**Swydd:** Ffermio'r fferm deuluol
**Hoff atgof yn y C.Ff.I.:** Cymryd rhan yn y Sioe Ddathlu nôl yn mis Hydref ac ennill yn y shorts pinc yn y Sioe Frenhinol eleni.



**Clod mwyaf yn ystod dy gyfnod fel aelod:**
Cael fy newis yn Ffermwr Ifanc y Flwyddyn yn 2009.
Y peth pwysicaf am y C.Ff.I.: Profi sgiliau newydd, ennill hunan hyder a'r "dating-agency" gore sydd i'w gael.

**Ydy'r elfen amaethyddol dal yn bwysig?**
Ydy yn bendant gan fod llawer o'r cystadlaethau o hyd yn ymwneud â'r diwydiant amaeth a bywyd cefn gwlad yn gyffredinol. Mae hefyd yn gwneud y mudiad yn unigryw ac yn wahanol i bob mudiad pobl ifanc arall. Mae'n bwysig bod pawb yn cael y cyfle i ddysgu sgiliau sy'n ymwneud ag amaeth e.e barnu stoc, er nad yw pob aelod yn dod o gefndir amaethyddol.


E.JONES
PLUMBING & HEATING LTD.
Tel: 07811 701 857
Installation and Servicing of:
All Domestic Oil Appliances
Ground Source Heating
Air Source Heating
And any other Plumbing Work
ejonesplumbing@hotmail.co.uk

# Teithio... ... i'r Weriniaeth Tsiec!

## ...Einir Ryder a Mererid Davies, C.Ff.I. Pontsian








**Faint ohonoch chi oedd ar y daith a pwy oedd yn cyd-deithio gyda chi?**
Saith i gyd, Steffan o Sir Gâr, Fay o Sir Benfro, Mari, Martin a Rhys o Ynys Môn a ni'n dwy o Geredigion.

**Beth odd bwriad y daith?**
Gwirfoddoli ar fferm Camphill, fferm a oedd yn cartrefi oedolion ag anghenion arbennig. Taith cyntaf o'i fath a drefnwyd ar y cyd gyda'r Ffermwyr Ifanc a UNA. Y prif weithgarwch oedd cynaeafu a helpu gydag ail adeiladu wal a'r adeiladau mas.

**Disgrifiwch y daith:** Cwmni da, cymuned croesawgar a chwrw rhad!

**Beth ddysgoch chi?** Sut i gymysgu cement, sut i gyd-weithio gydag eraill (er gwaethaf y rhwystr ieithyddol) ac yn bennaf y ffordd o fyw yn y Weriniaeth Tsiec.

**Beth oedd y peth anoddaf?** Gweithio allan - cynaeafu ar y caeau mewn tymheredd o 33˚C heb dim cysgod!

**Beth oedd yr uchafbwynt i chi?** Roedd nifer o uchafbwyntiau ac mae'n anodd dewis un ond mae'n siwr mai'r uchafbwynt oedd mynd ar y daith a gwneud ffrindiau newydd.

**A fyddech chi'n mentro ar daith debyg eto?**
Fydde'n glei! Annogwn unrhyw un sydd hanner whant mynd ar daith i wneud e', cyn y byddant yn mynd rhy hen fel ni'n dwy! Dim ond llanw ffurflen a chael cyfweliad sydd rhaid neud! Mae gwefan C.Ff.I. Cymru yn rhoi rhestr o deithiau posib.

# PROFFIL AELOD



**Enw: Ceris a Dafydd James**
**C.Ff.I.: Bryngwyn**
**Oed: Ceris: 18 oed / Dafydd:16 oed**

C.FF.I. CEREDIGION Y.F.C.

O ddydd i ddydd:

CERIS: Myfyrwraig blwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Bangor yn astudio Cymraeg ag Ysgrifennu Ceadigol. DAFYDD: Disgybl bl. 11 yn Ysgol Dyffryn Teifi yn astudio Daearyddiaeth, Gwyddoniaeth Driphlyg a Gwaith Coed.

Pryd a pham wnaethoch ymuno â'r Cffl?
Rhieni yn gyn-aelodau o glybiau Bryngwyn a Phennant, a'r clwb ym Mryngwyn ar waelod y pentre', gallem ni rowlo lawr i'r festri bob nos Lun!

Beth yw'r peth gore ry'ch chi wedi neud hyd yn hyn yn y C.Ff.I?
CERIS: Ennill cystadleuaeth sioe bypedau yn y Sioe Frenhinol 2009. DAFYDD: Bwrw fy mhen yn erbyn iet, nes bod gwaed bobman, gan gynnwys y got wen, a chael fy ngalw yn fwtshwr gan y stiward o flaen y beirniad. Trw' lwc, fe ddes i'n ail. Mae'n rhaid bod y gnoc wedi bwrw bach o sens mewn i'r pen!

Beth yw eich uchelgais yn ystod eich cyfnod yn y mudiad?
CERIS: Mynd ar dramp! Manteisio ar gyfleoedd teithio sydd gan y mudiad. DAFYDD: Bachan bachan, be sy'n bod arnot ti! Ti byth gytre fel ma'i!

Beth yw eich hoff beth yn y byd?
DAFYDD: Bwyd, bwyd a rhagor o fwyd. CERIS: Dished o de a rhoi'r byd yn ei le gyda'r merched.

Pwy ydych chi'n edmygu? Tad-cu a Mam-gu Penrhyn

Ble ry'ch chi hapusaf?
DAFYDD: Ffarmo.
CERIS: Cwestiwn rhwydd… Tafarn y Glôb!!!



# Cystadlu...

## Cadeirydd Fforwm Ieuenctid
## Gwawr Hatcher, C.Ff.I. Llanwenog



Addysg:
6ed dosbarth Ysgol Gyfun Bro Pedr, yn astudio Cymraeg, Cerdd, Arlunio a Iechyd a Gofal.

Pam wnes di ymuno a'r C.Ff.I.?
Odd e'n gyfle i ddatblygu fy mhersonoliaeth, fy sgiliau, yn gyfle i gymdeithasu, joio a gwneud ffrindiau newydd!

Peth dwlaf iti ei wneud yn y C.Ff.I.
Gwisgo lan fel pen ôl buwch, malwoden, tylluan ac actio fel hambon dwl mewn sgetsh *blind date* yn y panto.

Dy uchelgais mewn bywyd:
Bod yn iach ac yn hapus, a gobeithio cael swydd byddaf yn mwynhau ac sy'n talu'n dda!

Dy hoff beth yn y byd: Siocled a Bud - y Westie!
...o ie, a'r C.Ff.I.!

**CHWARAEON DAN DO**
Cynhaliwyd y Chwaraeon dan do eleni yn neuadd Llanddewi Brefi ar y 12fed o Hydref. Clwb Mydroilyn daeth i'r brig ar ddiwedd y noson.

**CHWARAEON Y SIR**
Cafwyd llawer o gystadlu eleni eto mewn amryw o gystadlaethau chwaraeon yn Llanbed.
Pêl-droed – Pennant
Pêl-rwyd – Troedyraur
Dodgeball – Bro'r Dderi
Hoci – Pontsian
Rygbi - Pontsian

**RYGBI AR LEFEL CYMRU**
Cafwyd ymdrech wych o Geredigion yn y Sioe Frenhinol eleni ar gyfer y rygbi gyda'r tîm yn cyrraedd y rownd derfynol yn erbyn Sir Gâr ar y dydd Mercher. Cafwyd gêm gyffrous iawn gyda'r tîm yn gorffen yn ail yn y bengampwriaeth.

**CHWARAEON CYMRU**
Ar ôl diwrnod prysur iawn yn Llanbed ar gyfer Chwaraeon Cymru cafwyd canlyniadau calonogol iawn. Hoci – 2il
Dodgeball – 1af
Pêl-rwyd – 3ydd







# Rali Llanwenog

## Llongyfarchiadau i glwb Talybont!

C.Ff.I. CEREDIGION Y.F.C.





- Cystadleuaeth yr Aelodau: Talybont
- Barnu Defaid Texel: Talybont
- Deunydd Priodas: Talybont
- Gwisgo'r briodferch: Lledrod
- Coedwigaeth: Llanddeiniol
- Priodas ffug: Llanddewi Brefi
- Canllaw mis mêl: Felinfach
- Arddangosfa Prif gylch: Pontsian
- Cneifio: Trisant a Llangwyryfon
- Barnu Gwartheg Godro: Bryngwyn
- Barnu Moch: Llanddeiniol
- Arddangosfa Ffederasiwn: Penparc
- Sialens y briodas: Llanddeiniol
- Dawnsio: Pontsian
- Cantorion Priodas: Troedyraur
- Tablo: Talybont
- Gweddnewid Priodas: Bro'r Dderi
- CLWB BUDDUGOL: TALYBONT!!!!

**Edrychwn ymlaen at wacen i dop y sir i Rali 2013 ar y 15fed o Fehefin!**

## Sioe Frenhinol Cymru - Canlyniad terfynol: cydradd 1af â Maesyfed

Bu llu o aelodau Ceredigion yn cystadlu yn y Sioe Frenhinol. Dyma'r cystadlaethau a ddaeth i'r brîg yn ystod yr wythnos:
Arddangosfa Ffederasiwn
Crefft
Canllaw Mis Mêl
Cystadleuaeth yr Aelodau
Cantorion Priodas
Ffensio
Barnu Stoc i gyd!



# ...a JOIO!

## Cadeirydd Gweithgareddau Gwennan Davies, C.Ff.I. Llanwenog

Swydd: Swyddog Cynllunio

Beth mae'r C.Ff.I. yn ei olygu iti: Mudiad holl bwysig i ddatblygiad unigolion, mae'n denu pobl ifanc nôl i'w cynefinoedd ac yn dysgu sgiliau amhrisiadwy, a ma wastad cwmni gyda chi i fynd am beint!



Pa weithgaredd sydd orau gennyt yng nghalendr y mudiad? Heblaw am deithio dramor sy'n brofiad anhygoel, rwy'n credu mae'r wythnos adloniant, mae bod yn rhan o gast a canu'r gân glo mewn Panto neu Hanner Awr yn rhoi gwefr eithriadol! Mae bod yn rhan o'r C.Ff.I. wedi gwneud imi fwynhau bod ar lwyfan yn perfformio ac mi fydd hiraeth gennyf am hyn wrth imi fynd dros oed cystadlu blwyddyn nesa!

Pa swydd o fewn y mudiad wyt ti'n feddwl yw'r un bwysicaf? 'Mewn pob swydd mae dyletswydd', rhaid i bawb dynnu eu pwysau a chymryd cyfrifoldeb. Ond mae Cadeirydd y Clwb yn hanfodol i dynnu'r tîm at ei gilydd a sicrhau bod pawb yn hapus!

## CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y Sir a Chymru

### CCB CYMRU

Mynychodd dros 60 o aelodau C.Ff.I Ceredigion benwythnos Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol C.Ff.I Cymru yng Nghaerdydd ym mis Hydref. Llongyfarchiadau i Geredigion ar ennill Tlws y Western Mail am y sir gyda'r nifer fwyaf o bwyntiau yng nghystadlaethau'r flwyddyn. Trosglwyddwyd siec o £37,759 gan Dylan Jones, cyn-gadeirydd C.Ff.I Cymru i'w elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Etholwyd Gwenno Griffith, Eryri yn Gadeirydd y mudiad am 2012-2013 a'i helusen hi yw Ymchwil y Galon, ei bwriad yw cerdded i fyny copa uchaf pob sir! Llongyfarchiadau i Gwennan Davies, C.Ff.I Llanwenog ar gael ei hethol yn Is-gadeirydd Pwyllgor Gweithgareddau a Rhyngwladol C.Ff.I Cymru. Cafwyd llawer o sbort yn ein gwisg ffansi 'Ble Mae Wali?' ar y nos Wener ac yn Owain Glyndwr a chlwb nos Tiger Tiger nos Sadwrn. Cynhaliwyd 'Brecwast Busnes' ar fore ddydd Sadwrn gyda Jim Dobson, Rheolwr Gyfarwyddwr Dunbia a Kevin Green yr aml-filiwnydd o Sir Gâr yn sôn am gwrs eu bywyd a sut y gwnaethant ddod yn ddynion busnes llewyrchus.



### CCB CEREDIGION

Yng CCB Ceredigion ar y 19eg o Fedi etholwyd swyddogion newydd y sir, gwelwch gyfweliadau ganddynt drwy'r rhifyn hwn - Pob dymuniad da ichi am y flwyddyn i ddod! Pledleisiwyd bod y mudiad yng Ngheredigion yn dilyn C.Ff.I Cymru ac yn newid eu statws i "Charitable Company limited by guarantee" a fydd yn diogelu aelodau'r mudiad petai C.Ff.I Ceredigion yn mynd i ddyled.






## PROFA, DERBYNIA, DEFNYDDIA! DYMA RAGLEN NEWYDD HYFFORDDIANT C.FF.I CYMRU.

**Profa** – Cwbl sydd angen arnat yw prawf o'r hyn rwyt eisoes yn ei wneud hefo'r CFfI

**Derbynia** – Derbynia dystysgrif

**Defnyddia** – Galli ddefnyddio'r cymhwyster yn dy CV




## Is-Lywydd: Gareth Evans, Hafod Iwan

Cyn-glwb: Caerwedros

Pa gystadleuaeth oedd orau gyda chi yn rhaglen y C.Ff.I. a pham? Y Rali, oherwydd yr amrywiaeth o gystadlaethau yn ystod y dydd.

Sut mae'r C.Ff.I. wedi newid ers eich cyfnod chi fel aelod? Llawer mwy o gystadlaethau sydd yn golygu bod yna rhywbeth at ddant pob aelod.

A wnaeth y C.Ff.I. eich helpu mewn unrhyw fodd yn eich bywyd proffesiynol? Un o'r pethau oedd gas gen i oedd siarad cyhoeddus ond o dipyn i beth drwy gefnogaeth y diweddar Hywel Thomas, Cwnc yr Hedydd, dyna'r gystadleuaeth sydd wedi fy helpu fwya' yn fy mywyd proffesiynol.



Beth fyddai eich cyngor chi i aelodau'r C.Ff.I. heddiw? Cymeryd rhan yng nghymaint o bethau a gallwch, gwneud ffrindiau newydd a joio mas draw—felly Bant a'r Cart!

# Digwyddiadau...







## DYDDIADAU I'CH DYDDIADUR!!

C.FF.I. CEREDIGION Y.F.C.

**TACHWEDD**

| | |
|---|---|
| 4 | Cyfweliadau Teithiau Tramor C.Ff.I Cymru |
| 14 | Hyfforddiant Barnu Carcas |
| 17 | Eisteddfod C.Ff.I Cymru - Sir Benfro |
| 19 | Cwis y Sir - Ysgol Gyfun Bro Pedr |
| 21 | Pwyllgorau'r Sir |
| 26/27 | Ffair Aeaf |

**RHAGFYR**

| | |
|---|---|
| 8 | Cyfweliadau Teithiau Tramor NFYFC |
| 9 | Siarad Cyhoeddus Saesneg - Felinfach |
| 28 | Dawns y Frenhines a'r Ffermwr Ifanc |

**IONAWR**

| | |
|---|---|
| 20 | Siarad Cyhoeddus Cymraeg - Felinfach |
| 23 | Pwyllgor Gwaith ac Is-bwyllgorau'r Sir<br>Hyfforddiant |

**CHWEFROR**

| | |
|---|---|
| 2 | Cyngor ac Is-bwyllgorau C.Ff.I. Cymru |
| 10 | Cyfweliadau Aelod Hŷn ac Iau |
| 11-15/18 | Cystadleuaeth Drama - Felinfach<br>Hyfforddiant |

**MAWRTH**

| | |
|---|---|
| 10 | Gymanfa'r Frenhines a'r Ffermwr Ifanc<br>- Glynarthen |



Llion Davies, Gwennan Davies, Cerys Lloyd, Elin Dafydd,
Katie-Ann Briddon a Siwan Háf Jones

Gobeithio y gethoch chi seibiant braf dros yr haf.
Nôl nawr at fwrlwm bywyd y C.Ff.I.

Diolch i Tim Jones a C.Ff.I. Cymru am ddefnydd rhai o'r lluniau, ac i'r noddwyr am eu rhoddion ariannol sy'n sicrhau parhad y cylchgrawn.